------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafelloedd Pwyllgora 1 a 2 a Chynhadledd Fideo drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 8 Mawrth 2023

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddEconomi@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.30)

## Cyfarfod cyhoeddus (09.30-11.05)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.30)

### 2.1 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

(Tudalennau 1 - 9)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb Llywodraeth Cymru i lythyr y Cadeirydd - nodau bwyd eilaidd Bil Bwyd (Cymru)

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog - 8 Chwefror 2023

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Bil Bwyd (Cymru): Sesiwn Dystiolaeth 8

(09.30–11.00) (Tudalennau 10 – 30)

Peter Fox AS, Aelod Cyfrifol

Gareth Rogers, Rheolwr y Bil

Aled Evans, y Gwasanaethau Cyfreithiol

Samiwel Davies, y Gwasanaethau Cyfreithiol

Elfyn Henderson, Ymchwil y Senedd

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

## 4 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol)

(11.00–11.05) (Tudalennau 31 – 43)

**Dogfennau atodol:**

Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.05)

## Preifat (11.05–11.30)

## 6 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

(11.05–11.20)

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol)

(11.20-11.30)

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darren Millar MS
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru

28 Chwefror 2023

Annwyl Darren,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Chwefror yn gofyn am ddisgrifiad o sut mae polisi trawsadrannol cyfredol Llywodraeth Cymru eisoes yn cyflawni nodau eilaidd Bil Bwyd (Cymru). Ceir tabl isod sy'n cymharu nodau eilaidd y Bil (fel y'u disgrifir yn adran 3(1) (colofn chwith)) ochr yn ochr â pholisïau perthnasol presennol Llywodraeth Cymru neu bolisïau sydd wedi'u cynllunio (colofn dde). Mewn rhai achosion mae polisi yn berthnasol i fwy nag un nod felly mae'r cyfeiriad ato yn cael ei ailadrodd. Ar ddechrau rhai nodau ceir esboniad byr o unrhyw brif bolisi cyn ystyried y disgrifiad manwl o'r nod.

Hyderaf fod hyn o gymorth i'ch pwyllgor ac edrychaf ymlaen at drafod y Bil pan fyddwn yn cyfarfod ar 1 Mawrth.

Cofion,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

<table>
<tr><th>Llesiant Economaidd</th><th>Polisi Llywodraeth Cymru</th></tr>
<tr><td colspan="2">Y prif bolisi yw'r Weledigaeth Strategol ar gyfer y diwydiant gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd a diod. Mae hyn yn gosod gweledigaeth a chenhadaeth sy'n canolbwyntio ar dyfu busnesau ac ar yr un pryd o fudd i bobl a chymdeithas, yn hyrwyddo Cymru ac yn dathlu llwyddiant y diwydiant. Mae'r Weledigaeth Strategol ei hun yn strategaeth sy'n canolbwyntio ar y diwydiant bwyd ac mae'n gysylltiedig â strategaeth datblygu economaidd ehangach Llywodraeth Cymru Ffyniant i Bawb - Y Strategaeth Genedlaethol a'r ffocws ar ailadeiladu'r economi ar ôl y pandemig, yn Y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi.</td></tr>
<tr><td>creu cyfleoedd economaidd newydd drwy hyrwyddo bwyd a gynhyrchir yn lleol</td><td>Mae'r Weledigaeth Strategol yn amlinellu 10 maes gweithredu sy'n cynnwys adeiladu rhwydweithiau busnes a'r gadwyn gyflenwi, a datblygu cyfleoedd yn y farchnad y DU drwy hyrwyddo marchnadoedd a gwyliau bwyd dethol ar y cyd â datblygu twristiaeth, ac adeiladu brand 'bwyd a diod Cymru' yn ddomestig ac mewn marchnadoedd allforio. Un o'r ymrwymiadau allweddol yw cefnogi ceisiadau i gynlluniau cynnyrch Dynodiad Daearyddol y DU, gan gynyddu teulu cynnyrch GI Cymru o 16 i 22 cynnyrch erbyn 2025. Mae Cynnyrch GI yn dangos tarddiad a threftadaeth a gallant greu cyfleoedd hyrwyddo.<br><br>Mae'r Rhaglen Datblygu Masnach a luniwyd fel rhan o'r Weledigaeth Strategol yn cynnwys cymorth datblygu busnes cynhwysfawr. Mae agweddau ar hyn yn cael eu datblygu wrth geisio cynyddu'r cyfleoedd i gyflenwi bwyd a diod Cymru er mwyn diwallu anghenion y polisi Prydau Ysgol Am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd. Hefyd, mae bwyd o fewn cwmpas y ddyletswydd caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol o dan y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael (Cymru) ac Egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol a fydd yn ceisio cefnogi mentrau cymunedol sy'n datblygu cyfleoedd ar gyfer bwyd a gynhyrchir yn lleol.</td></tr>
<tr><td>hybu datblygiad economaidd, cymdeithasol a chymunedol cynaliadwy</td><td>Mae'r polisïau a grybwyllir uchod hefyd yn berthnasol.<br><br>Mae'r Weledigaeth Strategol yn pwysleisio mai'r ffordd o weithio o ran y diwydiant bwyd a diod yw creu Cymru lewyrchus a gwydn a chymdeithas sy'n iachach, yn hapusach ac yn decach â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Y polisi gweithredol yw y bydd cymorth i fusnesau ac eraill yn gynyddol ddibynnol ar ymrwymo i Gontract Economaidd a'n partneriaid yn dangos eu bod yn rhoi gwaith teg, carbon isel, defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, a hyrwyddo llesiant ar waith. Mae'r modd y mae hyn yn cael ei gyflawni yn benodol i'r cyd-destun a bydd yn cynnwys telerau ac amodau priodol ar gyfer cymorth Llywodraeth Cymru.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Mae ystod o raglenni cymorth busnes ar waith sy'n cynnwys grantiau cyfalaf (ee Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd), cyngor technegol a chymorth masnachol (Arloesi Bwyd Cymru / Prosiect Helix), Cywain, rhaglenni Cymorth Allforio, mewnwelediad i'r farchnad a chymorth cwrdd â'r prynwyr ee Rhaglen Datblygu Masnach, cynhadledd Mewnwelediad), rhwydweithio busnes a chlystyrau i ddatblygu cadwyni cyflenwi a lledaenu gwybodaeth, digwyddiadau hyrwyddo masnach (ee BlasCymru) a chymorth sgiliau drwy Sgiliau Bwyd Cymru.<br><br>Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd ystod o raglenni cymorth ategol i'r diwydiant amaeth gyda Cyswllt Ffermio yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorthdaliadau a'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm yn rhoi cyngor am amrywiaeth o grantiau a materion gweinyddol. |
| *annog cysylltiadau gwell rhwng cynhyrchwyr bwyd, proseswyr bwyd a defnyddwyr* | Mae'r polisïau a'r rhaglenni a grybwyllir uchod yn berthnasol. Mae rhwydweithio busnesau a chlystyrau, a digwyddiadau masnach hyrwyddo fel BlasCymru yn arbennig o berthnasol. |
| **Iechyd a Chymdeithasol** | |
| Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi nifer o bolisïau, gyda Pwysau Iach: Cymru Iach yn gosod agenda iechyd cyhoeddus gynhwysfawr ar gyfer materion iechyd sy'n gysylltiedig â deiet. | |
| *Lleihau diffyg maeth, tlodi bwyd a diffyg diogeledd bwyd* | Mae Pwysau Iach: Cymru Iach yn bolisi hirdymor sy'n defnyddio dull cynhwysfawr o hyrwyddo deiet iachach a mynd i'r afael â salwch cronig sy'n gysylltiedig â deiet. Dechreuodd yn 2019 ac mae'n canolbwyntio ar greu amgylchedd bwyd iach, pobl iach, lleoliadau bwyd iach, arweinyddiaeth a galluogi newid i bob grŵp oedran a chau'r bwlch anghydraddoldeb iechyd ymhlith y cymunedau mwyaf difreintiedig.<br><br>Mewn cysylltiad â Pwysau Iach: Cymru Iach a'r Weledigaeth Strategol, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r diwydiant bwyd a diod i ailfformiwleiddio 25 cynnyrch y flwyddyn er mwyn eu gwneud yn fwy iach (o dan Arloesi Bwyd Cymru a Prosiect Helix).<br><br>Mewn lleoliadau ysgolion, rydym yn canolbwyntio ar wella dysgu drwy'r Cwricwlwm i Gymru a gwella prydau drwy'r ymrwymiad i ddiwygio rheoliadau a chyflwyno'r polisi Prydau Ysgol Am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd i ddarparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd erbyn 2024. Mae'r polisïau hyn yn cyd-fynd â pholisi i fynd i'r afael â thlodi plant drwy'r Strategaeth Tlodi Plant a rhaglen Cychwyn Iach y GIG i wella mynediad at fwyd iach i'r holl fenywod beichiog cymwys a rhieni plant o dan 4 oed a'r gwaith cynyddol o gyflwyno Bocs Bwyd Mawr sy'n ceisio sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn llwglyd a bod pob plentyn yn dysgu am ddewisiadau bwyd da. |

| | |
|---|---|
| | Mewn camau gweithredu ehangach sy'n canolbwyntio ar y gymuned er mwyn mynd i'r afael â thlodi bwyd a diffyg diogeledd bwyd (a lleihau gwastraff bwyd), mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf FareShare Cymru sy'n cefnogi ailddosbarthu bwyd bwytadwy sydd dros ben ledled Cymru a hefyd yn sicrhau gostyngiadau sylweddol mewn gwastraff bwyd posibl (gweler isod). |
| *lleihau gordewdra* | Mae'r polisïau uchod yn rhai sy'n berthnasol, yn enwedig Pwysau Iach: Cymru Iach. |
| *annog dosbarthiad teg o fwyd iach a chynaliadwy o fewn cymunedau* | Mae'r cymorth ar gyfer Bocs Bwyd Mawr a FareShare Cymru yn gwella dosbarthiad bwyd o fewn cymunedau. Rydym hefyd yn gwella'r dulliau o gydlynu camau gweithredu lleol drwy gynyddu cyllid i awdurdodau lleol i benodi cydlynwyr bwyd lleol sy'n gallu lledaenu model Synnwyr Bwyd Cymru. Bydd yr ymrwymiad i ddatblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd o ffynonellau lleol yn anelu at sicrhau cydlyniant, capasiti a grymuso mentrau bwyd ar lefel gymunedol. |
| *hybu manteision llesiant cymdeithasol bwyd, er enghraifft drwy dyfu cymunedol a thrwy randiroedd.* | Rydym yn cefnogi tyfu cymunedol a rhandiroedd drwy'r Grant Cymorth Rhandiroedd a chanllawiau cynhwysfawr yn ogystal ag ariannu'r Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol. |
| *hybu pwysigrwydd bwyta bwyd iach er mwyn gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol* | Pwysau Iach: Cymru Iach yw'r prif bolisi, gan ganolbwyntio'n benodol ar wneud dewisiadau bwyd iachach yn haws drwy fynd i'r afael â'r 'amgylchedd bwyd', gwella cymhelliant a gallu pobl i wneud y dewisiadau hynny, ac annog ffyrdd o fyw egnïol. |
| **Addysg** | |
| *cynyddu ansawdd a hygyrchedd darpariaeth addysgol ar faterion sy'n ymwneud â bwyd* | Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn trawsnewid addysg gan alluogi dysgwyr i ddatblygu, gan gynnwys meithrin a defnyddio gwybodaeth am ddeiet ac iechyd corfforol a meddyliol. Mae hyn yn cyd-fynd â Pwysau Iach: Cymru Iach. Mae'r rhaglen Eco-Sgolion Cymru yn ysbrydoli ac yn grymuso pobl ifanc i sbarduno newid amgylcheddol cadarnhaol ac mae mentrau mewn ysgolion yn aml yn cynnwys prosiectau tyfu bwyd. Y tu allan i'r ystafell ddosbarth, bydd disgyblion yn profi gwell bwyd a deiet drwy gyflwyno'r polisi Prydau Ysgol Am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd.<br><br>Mae hyfforddiant cynhwysfawr i weithwyr ar gael i'r diwydiant bwyd a diod drwy Sgiliau Bwyd Cymru. Mae Arloesi Bwyd Cymru drwy Brosiect Helix yn trosglwyddo gwybodaeth ac yn darparu cymorth ariannol ar gyfer amrywiaeth o gyrsiau technegol a chymwysterau addysgol, gyda dros fil o weithwyr yn elwa yn y flwyddyn ddiwethaf.<br><br>Mae Cyswllt Ffermio yn trosglwyddo gwybodaeth ac yn rhoi cymorth uwchsgilio i fusnesau amaeth. |

| | |
|---|---|
| *datblygu sgiliau bwyd er mwyn sicrhau deiet gwell ac iachach a llesiant gwell* | Mae'r polisïau uchod yn berthnasol i'r nod hwn. |
| **Yr Amgylchedd** | |
| Mae polisïau Llywodraeth Cymru wedi'u llywio gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), sy'n cydnabod ein natur, ein tir, ein dŵr a'n hawyr fel ein hadnoddau pennaf ac mae'n pennu dull integredig o reoli ein hadnoddau naturiol ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor, a Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, sy'n llywio gwaith cynllunio llwybr allyriadau'r sector i leihau ôl troed carbon y diwydiant gweithgynhyrchu, defnydd tir ac amaethyddiaeth, a gwastraff. | |
| *lleihau effeithiau amgylcheddol cynhyrchu, prosesu a bwyta bwyd* | Bydd y Bil Amaethyddiaeth yn creu amcanion rheoli tir yn gynaliadwy, gan gynnwys cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy. Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig fydd y prif gymorth i amaethyddiaeth er mwyn cyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy, sicrhau cynhyrchiant bwyd a hefyd gostwng ôl troed carbon a chyflawni ar gyfer natur. Yn y tymor byr mae Cynllun Grantiau Bach – Effeithlonrwydd yn darparu cymorth cyfalaf ac mae Cyswllt Ffermio yn darparu cymorth i feithrin gwybodaeth, sgiliau ac arferion gorau.<br><br>Mae cymorth i'r diwydiant gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd a diod wedi'i drefnu o dan y Weledigaeth Strategol (gweler uchod). Darperir cymorth technegol cynhwysfawr a chanllawiau arferion gorau drwy Arloesi Bwyd Cymru / Project Helix a hefyd trwy rwydweithio busnesau drwy'r Rhaglen Clystyrau Bwyd a Diod sydd ei hun yn cynnwys Clwstwr Cynaliadwyedd pwrpasol. Mae'r Weledigaeth Strategol yn datgan y bydd cymorth Llywodraeth Cymru yn gynyddol ddibynnol ar fusnesau'n ymrwymo i weledigaeth y diwydiant sy'n un o 'lwyddiant crwn' lle mae cynaliadwyedd gwell ac olion traed carbon gwell yn elfennau pwysig. Mae'r polisi hwn yn cael ei ddilyn drwy gymhwyso model y Contract Economaidd a pholisi i ddiwygio telerau ac amodau cymorth busnes.<br><br>O ran bwyta bwyd y prif offeryn polisi yw Mwy nag Ailgylchu sy'n ymrwymo i leihau gwastraff diangen, gan gynnwys gan ddefnyddwyr (gweler y nod gwastraff bwyd). Rydym yn ariannu ymgyrch Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff sy'n rhoi cyngor i'r cyhoedd er mwyn arbed bwyd rhag gwastraff. Nod ein hymgyrch ailgylchu bwyd – Bydd Wych, Ailgylcha yw addysgu pobl i ddefnyddio'r casgliadau gwastraff bwyd cyffredinol ac rydym yn cefnogi Wythnos Taclo Gwastraff Bwyd ar gyfer y DU gyfan. |
| *gwella ac adfywio'r amgylchedd naturiol drwy gynhyrchu bwyd* | Y prif bolisi fydd rheoli tir yn gynaliadwy a gyflawnir gan yr amcan penodol ar gyfer hynny yn y Bil Amaethyddiaeth ac a gefnogir gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n datblygu. |
| *adfer a chynnal bioamrywiaeth a chynefinoedd drwy gynhyrchu bwyd* | Mae'r pwyntiau uchod am y Bil Amaethyddiaeth a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn berthnasol. |

| | |
|---|---|
| *hybu system fwyd sy’n lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac sy’n addasu iddo ac sy’n lleihau ôl-troed amgylcheddol byd-eang Cymru* | Gan gydnabod bod system fwyd Cymru wedi'i hintegreiddio'n ddwfn o fewn system fwyd y DU gyfan, sy'n cynnwys elfennau mewnforio / allforio sylweddol ac sy'n cael ei siapio yn y pen draw gan bolisi sydd heb ei ddatganoli ar gyfer masnach a ffiniau, mae holl bolisïau Llywodraeth Cymru a amlinellir eisoes yn cael eu llywio gan nodau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac un ohonynt yw Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae hyn yn cael ei roi ar waith yn bennaf drwy'r polisïau sy'n cael eu dilyn ar gyfer y diwydiant gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd a diod (y Weledigaeth Strategol), ac ar gyfer amaethyddiaeth drwy'r Bil Amaethyddiaeth a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.<br><br>Ar lefel gymunedol bydd y Strategaeth Bwyd Cymunedol arfaethedig yn ceisio cefnogi’r gwaith o ddatblygu dulliau lleol, ar raddfa fach o ran bwyd. |
| **Gwastraff bwyd** | |
| *Lleihau gwastraff bwyd ar draws y system fwyd, gan gynnwys gwastraff bwyd gan gynhyrchwyr bwyd, proseswyr bwyd a defnyddwyr* | Mae'r Strategaeth Mwy nag Ailgylchu yn gweithio i wneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti ac mae’n ymrwymo i ddileu'r holl wastraff bwyd y gellir ei osgoi drwy weithio gyda chynhyrchwyr a phroseswyr bwyd ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan, i gyfyngu ar wastraff bwyd ym mhob lleoliad. Mae'r Strategaeth Mwy nag Ailgylchu yn gosod targed i haneru gwastraff bwyd y mae modd ei osgoi erbyn 2025, a gostyngiad o 60% erbyn 2030.<br><br>O fewn y diwydiant bwyd a diod darperir cymorth ymarferol i gyflawni'r newid hwn drwy gymorth technegol a gynigir gan Arloesi Bwyd Cymru / Prosiect Helix, gyda chymorth ariannol drwy ffynonellau grant eraill (gweler y nod economaidd). Ym maes amaethyddiaeth, mae Cyswllt Ffermio yn darparu cymorth i wella arferion busnes. Mae cymorth gan Busnes Cymru a WRAP Cymru hefyd ar gael.<br><br>Mae’r Strategaeth Mwy nag Ailgylchu hefyd yn canolbwyntio ar leihau gwastraff pecynnu ac yn ymrwymo i ymgynghori ar ofyniad i fusnesau adrodd am symiau gwastraff bwyd ac i fanwerthwyr mawr ailddosbarthu bwyd bwytadwy sydd dros ben. O ran y pwynt olaf hwnnw, mae cymorth Llywodraeth Cymru i FareShare Cymru yn cyfrannu at frwydro yn erbyn tlodi bwyd a lleihau gwastraff bwyd, drwy gefnogi’r gwaith o ailddosbarthu bwyd bwytadwy sydd dros ben. Ers 2015 mae FareShare Cymru wedi lleihau gwastraff bwyd o oddeutu 16 miliwn o brydau bwyd.<br><br>Gan gydnabod ein lle o fewn system fwyd y DU gyfan rydym yn bartner gweithredol yng nghytundeb Ymrwymiad Courtauld 2030 sy'n galluogi gweithredu ar y cyd ar draws cadwyn fwyd y DU gyfan er mwyn lleihau gwastraff bwyd o’r fferm i’r fforc, allyriadau nwyon tŷ gwydr a’r straen ar adnoddau dŵr. |

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Lesley Griffiths
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

8 Chwefror 2023

Annwyl Lesley,

Bil Bwyd (Cymru)

Ar 25 Ionawr, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr cynhyrchwyr a phroseswyr bwyd a diod ar y Bil Bwyd (Cymru) (y Bil). Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch eich sylwadau y gallai'r Bil ddefnyddio llawer o adnoddau a biwrocrataidd, awgrymodd Andy Richardson o Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, cyn i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno, y dylid herio adrannau Llywodraeth Cymru i ddangos sut maent yn cyflawni yn erbyn amcanion y ddeddfwriaeth.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod yr awgrym hwn yn ddiddorol, a hoffent ymgorffori'r dull hwn yn ein gwaith craffu ar y Bil. Felly, hoffai'r Aelodau gynnal ymarfer gan ddefnyddio'r nodau bwyd yn y Bil i ddeall sut y mae polisi trawsadrannol presennol Llywodraeth Cymru eisoes yn cyflawni nodau'r Bil.

Fel y gwyddoch, mae'r Bil yn nodi dau fath gwahanol o nodau bwyd. Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn nodi mai'r prif nod bwyd yw'r nod cyffredinol o ddarparu bwyd fforddiadwy, iach, ac sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol i bobl Cymru. Mae'r Memorandwm yn nodi bod y nodau bwyd eilaidd yn "ategu'r nod bwyd sylfaenol ac yn cwmpasu meysydd penodol, gan gynnwys: Llesiant economaidd, iechyd a chymdeithasol, addysg, yr amgylchedd a gwastraff bwyd."

Mae'r Bil yn cynnwys tabl gyda rhestr o'r nodau bwyd eilaidd a disgrifiad ar gyfer pob un:



Senedd Cymru
Welsh Parliament

| Nod | Disgrifiad |
|---|---|
| Llesiant economaidd | Creu cyfleoedd economaidd newydd drwy hybu bwyd a gynhyrchir yn lleol.<br>Hybu datblygiad economaidd, cymdeithasol a chymunedol cynaliadwy.<br>Annog cysylltiadau gwell rhwng cynhyrchwyr bwyd, proseswyr bwyd a defnyddwyr. |
| Iechyd a chymdeithasol | Lleihau diffyg maeth, tlodi bwyd a diffyg diogeledd bwyd.<br>Lleihau gordewdra.<br>Annog dosbarthiad teg o fwyd iach a chynaliadwy o fewn cymunedau.<br>Hybu manteision llesiant cymdeithasol bwyd, er enghraifft drwy dyfu cymunedol a thrwy randiroedd.<br>Hybu pwysigrwydd bwyta bwyd iach er mwyn gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol. |
| Addysg | Cynyddu ansawdd a hygyrchedd darpariaeth addysgol ar faterion sy'n ymwneud â bwyd.<br>Datblygu sgiliau bwyd er mwyn sicrhau<br>deiet gwell ac iachach a llesiant gwell. |
| Yr amgylchedd | Lleihau effeithiau amgylcheddol cynhyrchu, prosesu a bwyta bwyd.<br>Gwella ac adfywio'r amgylchedd naturiol drwy gynhyrchu bwyd.<br>Adfer a chynnal bioamrywiaeth a chynefinoedd drwy gynhyrchu bwyd.<br>Hybu system fwyd sy'n lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac sy'n addasu iddo ac sy'n lleihau ôl-troed amgylcheddol byd-eang Cymru. |
| Gwastraff bwyd | Lleihau gwastraff bwyd ar draws y system fwyd, gan gynnwys gwastraff bwyd gan gynhyrchwyr bwyd, proseswyr bwyd a defnyddwyr. |

A allwch chi nodi sut mae pob un o adrannau Llywodraeth Cymru yn cyflawni yn erbyn nodau bwyd eilaidd y Bil. Er fy mod yn deall ein bod yn gofyn i'r Llywodraeth wneud darn eang o waith trawsadrannol, byddwch hefyd yn ymwybodol mai prin iawn yw'r amser a roddir inni i wneud gwaith craffu deddfwriaethol. Felly, byddem yn croesawu cael ymateb gennych cyn ein sesiwn gyda'r

Gweinidog ar 16 Chwefror. Rydym yn derbyn y gallai'r ymateb hwn fod yn lefel uchel iawn. Os nad yw hynny'n ymarferol, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 3 Mawrth gan y byddai hyn yn rhoi amser inni ystyried eich ymateb a'i ymgorffori yn adroddiad cyfnod 1 y Bil.

Cofion,

Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon